Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Visitor Accessibility Improvement Grant Scheme - An Overview

## What is the grant?

The Visitor Accessibility Improvement Grant Scheme aims to improve the accessibility of visitor focused businesses and subsequently increase visitor numbers. To do so, it offers capital funding of up to £10,000 towards the installation of accessible facilities or the adaptation of existing facilities, signage, or physical on-site resources to improve the accessibility of a businesses' site or services.

The scheme is delivered and managed by Monmouthshire County Council under the UK Government's Local Growth Fund in Wales. This document will outline the eligibility and conditions of the grant funding.

## Who can apply?

Private enterprises involved in the visitor economy of Monmouthshire that meet the following criteria.

- Are independent (or a regional chain).
- Have fewer than 250 employees.
- Have been operational for 1 year or more.
- Have a functioning website.

## What projects can be funded?

- The installation of permanent accessible facilities.
- The adaptation or improvement of existing facilities, signage, or physical on-site resources.

## What is the scheme's timeline?

| | |
|---|---|
| **Applications window opens** | Friday 4th September 2026 |
| **Application window closes** | Sunday 11th October 2026 at 23:59 |
| **Outcomes communicated** | Friday 30th October 2026 |
| **Projects completed and final report received** | Monday 1st March 2027 at 12:00 |

# Visitor Accessibility Improvement Grant Scheme - Guidance Document

## What is accessibility and should it matter to you?

Visit Wales say "*Accessibility and inclusion aren't just nice-to-haves—they're essential. Every visitor deserves the chance to experience the beauty, culture, and adventure Wales has to offer. By making your facilities and experiences accessible, you're not only meeting legal requirements. You are opening your doors to a wider audience and creating a truly warm Welsh welcome.*

*Accessible tourism isn't just good practice—it's good business. Visitors who feel welcomed and supported are more likely to return and recommend your destination. By embracing accessibility, you're helping Wales become a destination for everyone.*"

AccessAble's 2023-24 Accessibility and You survey found 95% will check accessibility in advance of going somewhere new and 77% have not visited a venue because they could not find out about accessibility.

Visit Wales and PIW's 'Introduction to Accessibility' is a good resource to understand how accessibility is relevant to you.

## What funding is available?

The Visitor Accessibility Improvement scheme offers capital grants between £500 and £10,000. The grant must cover no more than 80% of the projects total funding, with the remaining costs being coved by the applicant or private sources of finance. Other forms of grants or funding from another public sector organisation cannot be used as match funding.

For example, an application may request a grant of £10,000 towards a project costing £12,500 (80%) or a grant of £2,100 towards a project costing £7,000 (30%).

Applications requesting a grant of £499 or less will not be considered as this could be funded by the applicant. A tolerance of up to 5% may be applied where minor ineligible costs are identified.

## Who can apply?

**Eligible businesses for this scheme include:**

- Hospitality e.g. restaurants, public houses, cafes, cocktail, or wine bars.
- Accommodation providers e.g. hotels, caravan and campsites, guest houses, self-catered lets (*must be open/bookable for 219 days+ of a year or 60%+ of your*

*open/relevant season e.g. a campsite that operating between April to September each year must be open/bookable for 60%+ of this time).*

- Attractions and leisure sites e.g. farm parks, museums, heritage sites or buildings, parks and gardens, theatres.
- Independent or regional chain retailers e.g. clothing shops, gift shops, galleries, delicatessens *(cannot operate solely online).*

**And must meet the following criteria:**

- Be within Monmouthshire *(if a regional chain, only branches within Monmouthshire are eligible).*
- Be operational for a minimum of 1 year on the date of application.
- Have under 250 employees (*excluding externally contracted staff e.g. social media agency).*
- Have a functioning website *(listings on accommodation booking websites e.g. Booking.com, travel agencies or intermediate websites are not sufficient)*
- if relevant, have a minimum of 2 years remaining on a leasehold.
- Have evidence of necessary permissions e.g. the building or site owner's approval for the proposed changes where the applicant is not the owner, listed building consent, building regulation approval etc.

**Businesses that are NOT eligible for this scheme include:**

- Community groups, charities, or Community Interest Companies (CICs).
- Local authorities.
- A business in administration or with outstanding licencing issues.
- A higher education institution.
- National chain retailers.
- Convenience stores or retailers selling primarily stationery, smoking and/or vaping goods.
- Venues offering primarily gambling or betting services.
- Those seeking to promote, support or oppose any political party.
- Service providers e.g. hairdressers, dry cleaners, beauty salons, accountants, estate agents, solicitors.
- Gymnasiums, sport, or exercise businesses.

For private sector business, the Subsidy Control Act 2022 applies which means that we are unable to offer financial assistance to anyone who has already exceeded the maximum £315,000 threshold for public sector support (over the previous two financial years) or who will exceed this threshold if the grant is awarded.

## Additional considerations

Applications must be made by the business owner or manager and only one application can be made per business. If the applicant manages or owns more than one business, a maximum of 2 applications can be made.

In the instance the business is managed as a partnership, please name all partners or owners under question 4 'Applicant name/s'.

## What could an accessibility improvement project be?

Eligible projects will be the installation of permanent accessible facilities and the improvement or adaptation of existing facilities, signage, or physical on-site resources. The table below lists some examples of accessible facilities or amenities, but this is by no means exhaustive.

- Hearing loops for theatres, wedding venues, guided tours etc
- Tactile paving at pavement/car park
- Notable contrast between walls and floors
- Lifts and or ramps
- Wet rooms *(with suction matts to minimise slip risk)*
- Lower sinks, water fountains, doorbells, intercoms etc
- Wider walkways, hallways, doorways, and greater space between seating areas
- Designated accessible and drop off bays in car parks
- Surfaced outdoor walking paths
- Quiet or low sensory area *(e.g. dimmer lights, black out blinds etc)*
- Changing place spaces
- Lifts and or ramps
- Lower sinks, water fountains, doorbells, intercoms etc
- Wheelchair friendly outdoor seating
- Dual sense alarms e.g. fire alarms with and flashing lights
- Lower and recessed section of reception desk/till
- Portable ramps for buildings with stairs
- Handrails on internal and external stairs
- Grabrails and/or ceiling tracked hoist in bathrooms *(beside toilet and in bath)*
- Dyslexia friendly text and/or contrasting colours on interpretation boards or signage

**What costs or projects are NOT eligible for this scheme?**

- Support for salaries of existing staff.
- Maintenance of existing facilities e.g. replacement of a handrail due to wear and tear.
- One-off training or costs for an event e.g. a BSL interpreter
- Reduced admissions.
- Purchase of goods with changeable content e.g. print of menus with braille.

- Production of marketing materials, including social media adverts, for existing accessible visitor facilities or events.
- Improvement of internet presence e.g. redesign of a website, externally managed social media campaign etc.
- Projects with an estimated cost of under £500 as this can be reasonably covered by a business.
- Works or any elements of works that have already taken place.
- Any works that are not undertaken by a professional contractor.
- Statutory costs (such as planning fees).

## How can I apply?

**Step 1** - Check your eligibility in the sections above, or email the grant administrator at opheliarajpaul@monmouthshire.gov.uk. Please note, this inbox is only monitored on working days)

**Step 2** - Submit an application by 23:59 on Sunday 11th October 2026. Any applications made after this date will not be considered. This must be submitted by the business owner or manager, and a submission of this application does not guarantee monies requested will be granted.

**Step 3** - A outcome of your application will be communicated, via email, no later than Friday 30th October 2026. All successful applicants will be sent copy of MCC's tourism business and visitor survey, once published. The applicant must complete the business survey and make the latter available to customers and/or site users e.g. hard copies at reception, link sent in booking confirmation/thank you email.

A representative from each successful applicant must attend a supplementary business accessibility training session in late 2026. Details of this and the grant funding's final report and will be shared with successful applicants upon offer of the grant.

## How will applications be reviewed

Applications that meet the eligibility requirements of the scheme will be reviewed, by multiple members of the Destination Management team, against the framework below.

If all eligible applications request monies greater that that available in the scheme, applications will be ranked according to their total score, and funding will be offered to those with the highest score.

The scores will be given on sections 2 to 5 as follows (please see the relevant box for the scoring of section 1) -

**0** - No relevant information is given in the related application question

**1** - Application does not fulfil the statement

**3** - Application fulfils the statement with limited evidence or discussion to support its answer.

**5** - Application fulfils the statement with strong evidence to support its reasoning

| **Consideration** | **Meaning** | **Value of score** |
|---|---|---|
| Applicant makes a strong contribution to the county's visitor offer. | This will be considered based on answers given under questions 7, 9, 10, 11 and 13.<br><br>Venues, sites, or businesses that are deemed to be established, unique or commended are strong contributors to the county's visitor offer are likely to score higher.<br><br>Established is defined as those that have operated for 3 years or more. Commended is defined as those with an award, accolade within the last 3 years. | x1 |
| Applicant demonstrates demand or need for this improvement. | The applicant, under question 23, should clearly explain why they feel this project is worthwhile and evidence of this. Evidence may be the number of requests for wheelchair friendly rooms; queries about quiet areas or shopping times; online reviews noting the quality, quantity or available adjustments for accessible facilities or amenities etc.<br><br>Applicants with tangible evidence, such as reviews or emails, to support their claim are likely to score higher. | x1 |
| Proposed project demonstrates value for money. | The overall and potential future cost of the proposed project, under question 26 and 32, should be viable.<br><br>Proposed projects with little to no expected maintenance costs are likely to score higher. | x2 |
| There is a clear timeline to ensure the proposed project is completed by Monday 1st March 2027. | The applicant, under questions 22 and 31, must outline their proposed project's timeline and account for any issues that may arise. Risks to a proposed project's timely completion could be the need for planning permission, small available window for installation, resources needing to be custom made or shipped from overseas.<br><br>Proposed projects with little risk of delay or abandonment, or where the applicant has demonstrated consideration for these risks, will likely score higher. | x2 |
| There is a strong system to measure the | The applicant, under question 32, should clearly explain how they intend to measure the impact of their proposed project. This may be a record of instances the facility or | x2 |

| | | |
|---|---|---|
| proposed project's impact. | resource is requested, an optional survey for guests about the building/space etc.<br><br>Applicants with an easy and viable system to measure their proposed project's impact will likely score higher. | |
| Proposed project will have a long-lasting impact. | Nature of the product, under questions 19, 22 and 32, will be considered.<br><br>Installation or improvement of a physical space will likely score higher.<br><br>Production of hard copy resources will likely score lower. | x2 |

## Appeals Procedure

If an application is rejected, the reasons for the rejection will be explained. We will be prepared to discuss any modifications which might be needed to make the project acceptable.

## Alternative formats

If you require this document in an alternative format, please contact opheliarajpaul@monmouthshire.gov.uk.

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Cynllun Grant Gwella Hygyrchedd i Ymwelwyr - Trosolwg

## Beth yw'r grant?

Nod y Cynllun Grant Gwella Hygyrchedd i Ymwelwyr yw gwella hygyrchedd busnesau sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr ac felly'n cynyddu niferoedd yr ymwelwyr. I wneud hynny, mae'n cynnig cyllid cyfalaf o hyd at £10,000 tuag at osod cyfleusterau hygyrch neu addasu cyfleusterau presennol, arwyddion neu adnoddau corfforol ar y safle er mwyn gwella hygyrchedd safle neu wasanaethau busnes.

Mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno a'i reoli gan Gyngor Sir Fynwy o dan Gronfa Twf Lleol yng Nghymru Llywodraeth y DU. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu cymhwysedd ac amodau'r cyllid grant.

## Pwy all wneud cais?

Mentrau preifat sy'n ymwneud ag economi ymwelwyr Sir Fynwy sy'n bodloni'r meini prawf canlynol.

- Yn annibynnol (neu gadwyn ranbarthol).
- Â llai na 250 o weithwyr.
- Wedi bod yn weithredol am 1 flwyddyn neu fwy.
- Bod â gwefan weithredol.

## Pa brosiectau y gellir eu hariannu?

- Gosod cyfleusterau hygyrch parhaol.
- Addasu neu wella cyfleusterau, arwyddion neu adnoddau corfforol ar y safle presennol.

## Beth yw amserlen y cynllun?

| | |
|---|---|
| **Cyfnod ymgeisio'n agor** | Dydd Gwener 4ydd Medi 2026 |
| **Cyfnod ymgeisio'n cau** | Dydd Sul 11eg Hydref 2026 am 23:59 |
| **Cyfathrebu'r canlyniadau** | Dydd Gwener 30ain Hydref 2026 |
| **Prosiectau wedi'u cwblhau a'r adroddiad terfynol a dderbyniwyd** | Dydd Llun 1af Mawrth 2027 am 12:00 |

# Cynllun Grant Gwella Hygyrchedd i Ymwelwyr - Dogfen Ganllaw

## Beth yw hygyrchedd ac a ddylai fod o bwys i chi?

Mae Croeso Cymru yn dweud "*Nid yw hygyrchedd a chynhwysiant dim ond yn beth braf i'w gael - maen nhw'n hanfodol. Mae pob ymwelydd yn haeddu'r cyfle i brofi'r harddwch, y diwylliant a'r antur sydd gan Gymru i'w gynnig. Trwy wneud eich cyfleusterau a'ch profiadau yn hygyrch, rydych chi nid dim ond yn bodloni gofynion cyfreithiol. Rydych chi'n agor eich drysau i gynulleidfa ehangach ac yn creu croeso Cymreig gwirioneddol gynnes.*

*Nid yw Twristiaeth hygyrch ond yn arfer da - mae'n fusnes da. Mae ymwelwyr sy'n teimlo'u bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi yn fwy tebygol o ddychwelyd ac argymell eich cyrchfan. Trwy gofleidio hygyrchedd, rydych chi'n helpu Cymru i ddod yn gyrchfan i bawb."*

Canfu arolwg AccessAble 2023-24 Accessibility and You y bydd 95% yn gwirio hygyrchedd cyn mynd i rywle newydd ac nid yw 77% wedi ymweld â lleoliad oherwydd nad oeddent yn gallu cael gwybod am hygyrchedd.

Mae adnodd 'Cyflwyniad i Hygyrchedd' Croeso Cymru a PIWs yn adnodd da i ddeall sut mae hygyrchedd yn berthnasol i chi.

## Pa gyllid sydd ar gael?

Mae'r cynllun Gwella Hygyrchedd i Ymwelwyr yn cynnig grantiau cyfalaf rhwng £500 a £10,000. Rhaid i'r grant gwmpasu dim mwy na 80% o gyfanswm cyllid y prosiect, gyda'r costau sy'n weddill yn cael eu talu gan yr ymgeisydd neu ffynonellau cyllid preifat. Ni ellir defnyddio mathau eraill o grantiau neu gyllid gan sefydliad sector cyhoeddus arall fel cyllid cyfatebol.

Er enghraifft, gall cais ofyn am grant o £10,000 tuag at brosiect sy'n costio £12,500 (80%) neu grant o £2,100 tuag at brosiect sy'n costio £7,000 (30%).

Ni fydd ceisiadau sy'n gofyn am grant o £499 neu lai yn cael eu hystyried gan y gallai hyn gael ei ariannu gan yr ymgeisydd. Gellir cymhwyso goddefgarwch o hyd at 5% pan nodir mân gostau anghymwys.

## Pwy all wneud cais?

**Mae'r busnesau cymwys ar gyfer y cynllun hwn yn cynnwys:**

- Lletygarwch e.e. bwytai, tafarndai, caffis, bariau coctel, neu fariau gwin.
- Darparwyr llety e.e. gwestai, carafanau a gwersylloedd, tai llety, gosodiadau hunanarlwyo (*rhaid bod ar agor/ar gael i archebu am 219 diwrnod+ o flwyddyn neu*

*60%+ o'ch tymor agored/perthnasol e.e. rhaid i wersyll sy'n gweithredu rhwng Ebrill a Medi bob blwyddyn fod ar agor/ar gael i archebu am 60%+ o'r amser hwn).*

- Atyniadau a safleoedd hamdden e.e. parciau fferm, amgueddfeydd, safleoedd neu adeiladau treftadaeth, parciau a gerddi, theatrau.
- Manwerthwyr cadwyn annibynnol neu ranbarthol e.e. siopau dillad, siopau anrhegion, orielau, siopau bwydydd tramor *(ni all weithredu dim ond ar-lein).*

**Ac mae'n rhaid iddynt fodloni'r meini prawf canlynol:**

- Bod yn Sir Fynwy *(os yw'n gadwyn ranbarthol, dim ond canghennau yn Sir Fynwy sy'n gymwys).*
- Wedi bod yn weithredol am o leiaf 1 flwyddyn ar ddyddiad y cais.
- Mae ganddynt o dan 250 o weithwyr (*ac eithrio staff dan gontract allanol e.e. asiantaeth cyfryngau cymdeithasol).*
- Cael gwefan weithredol *(Nid yw rhestrau ar wefannau archebu llety e.e. Booking.com, asiantaethau teithio neu wefannau cyfryngol yn ddigonol)*
- os yw'n berthnasol, cael o leiaf 2 flynedd ar ôl ar lesddaliad.
- Cael tystiolaeth o ganiatâd angenrheidiol e.e. cymeradwyaeth perchennog yr adeilad neu'r safle ar gyfer y newidiadau arfaethedig lle nad yw'r ymgeisydd yn berchennog, caniatâd adeilad rhestredig, cymeradwyaeth rheoleiddio adeiladu ac ati.

**Mae busnesau nad ydynt yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn yn cynnwys:**

- Grwpiau cymunedol, elusennau, neu Gwmnïau Buddiant Cymunedol (CBCau).
- Awdurdodau Lleol.
- Busnes yn nwylo gweinyddwyr neu sydd â phroblemau trwyddedu'n weddill.
- Sefydliad addysg uwch.
- Manwerthwyr cadwyn cenedlaethol.
- Siopau cyfleustra neu fanwerthwyr sy'n bennaf yn gwerthu nwyddau ysgrifennu, nwyddau ysmygu a/neu fêpio.
- Lleoliadau sy'n bennaf yn cynnig gwasanaethau gamblo neu betio.
- Y rhai sy'n ceisio hyrwyddo, cefnogi neu wrthwynebu unrhyw blaid wleidyddol.
- Darparwyr gwasanaeth e.e. trinwyr gwallt, glanhawyr sych, salonau harddwch, cyfrifwyr, asiantau tai, cyfreithwyr.
- Campfeydd, busnesau chwaraeon neu ymarfer corff.

Ar gyfer busnesau'r sector preifat, mae Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 yn berthnasol, sy'n golygu nad ydym yn gallu cynnig cymorth ariannol i unrhyw un sydd eisoes wedi rhagori ar uchafswm trothwy o £315,000 ar gyfer cymorth gan y sector cyhoeddus (dros y ddwy flynedd ariannol flaenorol) neu a fydd yn rhagori ar y trothwy hwn os dyfernir y grant.

## Ystyriaethau ychwanegol

Rhaid i berchennog neu reolwr y busnes wneud ceisiadau a dim ond un cais y gellir ei wneud fesul busnes. Os yw'r ymgeisydd yn rheoli neu'n berchen ar fwy nag un busnes, gellir gwneud uchafswm o 2 gais.

Os yw'r busnes yn cael ei reoli fel partneriaeth, enwch yr holl bartneriaid neu berchnogion o dan gwestiwn 4 'Enw/enwau'r ymgeisydd'.

## Beth allai prosiect gwella hygyrchedd fod?

Prosiectau cymwys fydd gosod cyfleusterau hygyrch parhaol a gwella neu addasu cyfleusterau presennol, arwyddion neu adnoddau corfforol ar y safle. Mae'r tabl isod yn rhestru rhai enghreifftiau o gyfleusterau neu amwynderau hygyrch, ond nid yw hyn yn gynhwysfawr o gwbl.

- Dolenni clyw ar gyfer theatrau, lleoliadau priodas, teithiau tywys ac ati
- Palmentydd cyffyrddol ar y palmant/maes parcio
- Cyferbyniad amlwg rhwng waliau a lloriau
- Lifftiau a/neu rampiau
- Ystafelloedd gwlyb *(gyda mattiau sugno i leihau'r risg o lithro)*
- Sinciau is, ffynhonnau dŵr, clychau drws, intercom ac ati
- Llwybrau cerdded, cynteddau a drysau ehangach, a mwy o le rhwng ardaloedd eistedd
- Baeau hygyrch a baeau gollwng dynodedig mewn meysydd parcio
- Llwybrau cerdded awyr agored wedi'u harwynebu
- Ardal synhwyraidd dawel neu isel *(e.e. goleuadau wedi pylu, cysgodlenni ac ati)*
- Mannau Newid
- Lifftiau a/neu rampiau
- Sinciau is, ffynhonnau dŵr, clychau drws, intercom ac ati
- Seddi awyr agored sy'n gyfeillgar i gadeiriau olwyn
- Larymau synnwyr deuol e.e. larymau tân gyda goleuadau sy'n fflachio
- Adran is a chilfachog y ddesg dderbynfa/til
- Rampiau cludadwy ar gyfer adeiladau sydd â grisiau
- Rheiliau llaw ar risiau mewnol ac allanol
- Rheiliau cydio a/neu declyn codi trac nenfwd mewn ystafelloedd ymolchi *(wrth ymyl y toiled ac yn y bath)*
- Testun cyfeillgar i Ddyslecsia a/neu liwiau cyferbyniol ar fyrddau dehongli neu arwyddion

**Pa gostau neu brosiectau NAD ydynt yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn?**

- Cymorth ar gyfer cyflogau staff presennol.
- Cynnal a chadw cyfleusterau presennol e.e. ailosod rheilen law oherwydd traul.
- Hyfforddiant untro neu gostau ar gyfer digwyddiad e.e. cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain

- Llai o dderbyniadau.
- Prynu nwyddau gyda chynnwys newidiol e.e. argraffu bwydlenni gyda Braille.
- Cynhyrchu deunyddiau marchnata, gan gynnwys hysbysebion cyfryngau cymdeithasol, ar gyfer cyfleusterau neu ddigwyddiadau ymwelwyr hygyrch presennol.
- Gwella presenoldeb ar y rhyngrwyd e.e. ailgynllunio gwefan, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a reolir yn allanol ac ati.
- Prosiectau sydd â chost amcangyfrifedig o dan £500 gan y gall hyn fod wedi'i gwmpasu'n rhesymol gan fusnes.
- Gwaith neu unrhyw elfennau o hynny sydd eisoes wedi digwydd.
- Unrhyw waith nad yw'n cael ei wneud gan gontractwr proffesiynol.
- Costau statudol (megis ffioedd cynllunio).

## Sut gallaf wneud cais?

**Cam 1** - Gwiriwch eich cymhwysedd yn yr adrannau uchod, neu anfonwch e-bost at y gweinyddwr grant - opheliarajpaul@monmouthshire.gov.uk. (Nodwch, dim ond ar ddiwrnodau gwaith y mae'r mewnflwch hwn yn cael ei fonitro)

**Cam 2** - Cyflwyno cais erbyn 23:59 ar ddydd Sul 11eg Hydref 2026. Ni fydd unrhyw geisiadau a wneir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried. Rhaid i berchennog neu reolwr y busnes gyflwyno'r cais, ac nid yw'r cais hwn yn gwarantu y bydd arian y gofynnir amdano yn cael ei dyfarnu.

**Cam 3** - Bydd canlyniad eich cais yn cael ei gyfathrebu, drwy e-bost, erbyn dydd Gwener 30ain Hydref 2026 fan bellaf. Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn cael copi o arolwg busnes ac ymwelwyr twristiaeth Cyngor Sir Fynwy, ar ôl ei gyhoeddi. Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r arolwg busnes a sicrhau bod hynny ar gael i gwsmeriaid a/neu ddefnyddwyr y safle e.e. copïau caled yn y dderbynfa, dolen wedi'i anfon mewn cadarnhad archebu/e-bost diolch.

Rhaid i gynrychiolydd o bob ymgeisydd llwyddiannus fynychu sesiwn hyfforddi hygyrchedd busnes atodol ddiwedd 2026. Bydd manylion hyn ac adroddiad terfynol y cyllid grant a bydd yn cael eu rhannu gydag ymgeiswyr llwyddiannus ar gynnig y grant.

## Sut bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu

Bydd ceisiadau sy'n bodloni gofynion cymhwysedd y cynllun yn cael eu hadolygu, gan sawl aelod o'r tîm Rheoli Cyrchfan, yn erbyn y fframwaith isod.

Os bydd pob cais cymwys yn gofyn am arian sy'n fwy na'r hyn sydd ar gael yn y cynllun, bydd ceisiadau'n cael eu rhestru yn ôl eu cyfanswm sgôr, a bydd cyllid yn cael ei gynnig i'r rhai sydd â'r sgôr uchaf.

Bydd y sgoriau'n cael eu rhoi ar adrannau 2 i 5 fel a ganlyn (gweler y blwch perthnasol ar gyfer sgorio adran 1) -

**0** - Ni roddwyd unrhyw wybodaeth berthnasol yn y cwestiwn cais cysylltiedig

**1** - Nid yw'r cais yn bodloni'r datganiad

**3** - Mae'r cais yn cyflawni'r datganiad gyda thystiolaeth neu drafodaeth gyfyngedig i gefnogi ei ateb.

**5** - Mae'r cais yn cyflawni'r datganiad gyda thystiolaeth gref i gefnogi ei resymu

| **Ystyriaeth** | **Ystyr** | **Gwerth y sgôr** |
|---|---|---|
| Mae'r ymgeisydd yn gwneud cyfraniad cryf at gynnig ymwelwyr y sir. | Bydd hyn yn cael ei ystyried yn seiliedig ar atebion a roddir o dan gwestiynau 7, 9, 10, 11 a 13.<br><br>Mae lleoliadau, safleoedd neu fusnesau sy'n cael eu hystyried yn sefydledig, yn unigryw neu wedi'u canmol yn gyfranwyr cryf at gynnig ymwelwyr y sir, yn debygol o sgorio'n uwch.<br><br>Mae "wedi'i sefydlu" yn cael ei ddiffinio fel y rhai sydd wedi gweithredu am 3 blynedd neu fwy. Diffinnir canmoliaeth fel y rhai sydd â gwobr neu anrhydedd o fewn y 3 blynedd diwethaf. | x1 |
| Mae'r ymgeisydd yn dangos galw neu angen am y gwelliant hwn. | Dylai'r ymgeisydd, o dan gwestiwn 23, esbonio'n glir pam eu bod yn teimlo bod y prosiect hwn yn werth chweil gyda thystiolaeth o hyn. Gall tystiolaeth fod nifer y ceisiadau am ystafelloedd sy'n addas i gadeiriau olwyn; ymholiadau am ardaloedd neu amseroedd siopa tawel; adolygiadau ar-lein sy'n nodi'r ansawdd, maint neu addasiadau sydd ar gael ar gyfer cyfleusterau hygyrch neu amwynderau ac ati.<br><br>Mae ymgeiswyr sydd â thystiolaeth ddiriaethol, fel adolygiadau neu negeseuon e-bost, i gefnogi eu honiad yn debygol o sgorio'n uwch. | x1 |
| Prosiect arfaethedig yn dangos gwerth am arian. | Dylai cost gyffredinol a phosibl y prosiect arfaethedig, o dan gwestiwn 26 a 32, fod yn hyfyw.<br><br>Mae prosiectau arfaethedig heb fawr o gostau cynnal a chadw disgwyliedig yn debygol o sgorio'n uwch. | x2 |
| Mae amserlen glir i sicrhau bod y prosiect arfaethedig wedi'i gwblhau erbyn dydd Llun 1af Mawrth 2027. | Rhaid i'r ymgeisydd, o dan gwestiynau 22 a 31, amlinellu amserlen eu prosiect arfaethedig ac ystyried unrhyw faterion a allai godi.<br><br>Gallai'r risgiau i gwblhau prosiect arfaethedig yn amserol fod yr angen am ganiatâd cynllunio, dim ond cyfnod bach | x2 |

| | | |
|---|---|---|
| | ar gael ar gyfer gosod, adnoddau sydd angen eu gwneud yn arbennig, neu eu cludo o dramor.<br><br>Bydd prosiectau arfaethedig heb fawr o risg o oedi neu adael, neu lle mae'r ymgeisydd wedi dangos ystyriaeth i'r risgiau hyn, yn debygol o sgorio'n uwch. | |
| Mae system gref i fesur effaith y prosiect arfaethedig. | Dylai'r ymgeisydd, o dan gwestiwn 32, esbonio'n glir sut maent yn bwriadu mesur effaith eu prosiect arfaethedig. Gall hyn fod yn gofnod o achosion y gofynnir am y cyfleuster neu'r adnodd, arolwg dewisol i westeion am yr adeilad/gofod ac ati.<br><br>Bydd ymgeiswyr sydd â system hawdd a hyfyw i fesur effaith eu prosiect arfaethedig yn debygol o sgorio'n uwch. | x2 |
| Bydd y prosiect arfaethedig yn cael effaith hirhoedlog. | Bydd natur y cynnyrch, o dan gwestiynau 19, 22 a 32, yn cael ei ystyried.<br><br>Bydd gosod neu wella gofod ffisegol yn debygol o sgorio'n uwch.<br><br>Bydd cynhyrchu adnoddau copi caled yn debygol o sgorio'n is. | x2 |

## Gweithdrefn Apeliadau

Os gwrthodir cais, bydd y rhesymau dros wrthod yn cael eu hesbonio.  Byddwn yn barod i drafod unrhyw addasiadau a allai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.

## Fformatau amgen

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, e-bostiwch opheliarajpaul@monmouthshire.gov.uk.